GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

139 - Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio ac ati) Rheoliadau (Ymadael â'r UE) 2019

Gosodwyd yn Senedd y DU: 1 Gorffennaf 2019

Sifftio	
A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol Arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	16 Gorffennaf 2019
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	16 Gorffennaf 2019
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	17 Gorffennaf 2019
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 8
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Papur 4
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol neu Negyddol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU (yn rhannol) yn unol ag adran 8(1) o, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o newidiadau technegol i offerynnau presennol gan ystyried newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth yr UE na ellid eu cynnwys mewn offerynnau Ymadael â'r UE blaenorol. Mae'r Rheoliadau'n cwmpasu nifer o feysydd polisi gan gynnwys: rhywogaethau estron goresgynnol, amrywiaethau planhigion, marchnata hadau a deunydd planhigion, rheoli clefydau anifeiliaid mewn Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 4 Gorffennaf 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

- Er bod y datganiad yn cyfeirio at newidiadau a wnaed (yn rheoliadau 2 a 3) i Orchymyn y Rhywogaethau Gorsegynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 a Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995, gwnaed newidiadau i'r offerynnau hyn gan ddefnyddio pwerau o dan adran 2 (2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn hytrach na phwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

- Mae'r Rheoliadau yn gwneud newidiadau i Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019. Er bod yr offeryn hwn yn cael ei grybwyll yn y rhestr fwled ar dudalen 1, ni roddir eglurhad pellach yn y datganiad. Ceir eglurhad ar dudalen 3 o'r datganiad sy'n cyfeirio at newidiadau a wnaed i Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau hyn wedi'u cynnwys yn y rhestr bwled ar dudalen 1.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.